Gwybodaeth am y Porth

Mae'r Porth yn gynllun dan raglen Cydgyfeirio'r Undeb Ewropeaidd, sef olynydd Amcan 1.

Ei nod yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru a gwella cyflogadwyedd pobl dan anfantais sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur.

Sut fath o bobl yr ystyrir sydd 'bellaf oddi wrth y farchnad lafur'?

Bydd y Porth yn buddsoddi mewn mudiadau sy'n targedu pobl a allai fod wedi colli cysylltiad â gwasanaethau prif ffrwd, neu sydd mewn perygl o fod yn ddibynnol ar fudd-daliadau yn y tymor hir. Bydd y grwpiau hyn yn cynnwys pobl sydd dan anfantais benodol, megis:

- Menywod sydd am ddychwelyd i'r gwaith
- Pobl ddu, Asiaidd a phobl o leiafrifoedd ethnig
- Pobl ag anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio
- Defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl
- Pobl dros hanner cant

Mae'r grwpiau targed eraill yn cynnwys:

- Pobl sy'n derbyn budd-dal analluogrwydd
- Rhieni unigol gyda phlant o bob oed
- Pobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant
- Pobl economaidd anweithgar ledled Cymru

Ai cronfa grant ydyw?

Na. Mae'r Porth yn gynllun sy'n cynnig contractau am hyd at ddwy flynedd.

Bydd contractau yn cael eu dosbarthu i ddau gategori gwahanol sy'n mynnu bod mudiadau'n darparu canlyniadau cadarnhaol i grwpiau targed penodol a/neu ardaloedd daearyddol penodol.

Caiff unrhyw fudiad wneud cais am gontractau drwy broses dendro.

Pa fath o ganlyniadau y mae eu hangen er mwyn ennill contract?

Nod y Porth yw helpu pobl i symud at gyflogaeth.

Bydd y Porth yn buddsoddi mewn mudiadau sy'n darparu gweithgareddau i feithrin sgiliau, hyder a gwybodaeth grwpiau targed; ac sy'n cysylltu camau o ran symud ymlaen gyda 'cham nesaf' megis atgyfeiriadau at brosiectau eraill, gwirfoddoli, hyfforddi, cyflogaeth gyda chefnogaeth neu gyflogaeth lawn.

Er y caiff gwerth a chanlyniadau'r contractau eu diffinio gan WCVA, y mudiadau sy'n tendro a fydd yn llunio'r gweithgareddau sy'n gweddu orau i'w grŵp cleientiaid.

Pa fudiadau all dendro am gontractau'r Porth?

Gall unrhyw fudiad dendro am gontractau'r Porth.

Ni chaiff dim mudiad ei eithrio rhag ennill contractau ar sail eu lleoliad daearyddol. Fodd bynnag, mae'n rhaid darparu gweithgareddau i gyfranogwyr o fewn ardaloedd Cydgyfeirio Cymru, ac mae WCVA yn bwriadu manteisio i'r eithaf ar gyfraniad Cymru yn y cynllun.

Faint o arian y gall y Porth ei fuddsoddi mewn mudiadau?

Bydd Lefel 1 yn cynnig contractau hyd at £25,000 dros uchafswm o ddwy flynedd. Nid oes yn rhaid cael arian cyfatebol ar y lefel hon, er y caiff hynny ei groesawu.

Bydd Lefel 2 yn cynnig contractau o £25,000 i £75,000 dros uchafswm o ddwy flynedd. Mae elfen o arian cyfatebol yn ofynnol ar y lefel hon.

Bydd Lefel 3 yn cynnig contractau o £75,000 i £150,000. Mae elfen o arian cyfatebol yn ofynnol ar gyfer y lefel hon.

Gall arian cyfatebol gynnwys cyfraniad ariannol, rhoddion ymarferol neu amser gwirfoddolwyr.

A oes unrhyw gymorth ar gael i baratoi tendr?

Gellir cael cyngor yn lleol drwy asiantaethau megis y Siop Contractau, cynghorau gwirfoddol sirol neu eich awdurdod lleol.

Bydd WCVA hefyd yn cynnig hyfforddiant hygyrch sy'n cynnwys paratoi tendrau, sesiynau briffio a digwyddiadau 'cwrdd â'r prynwr'.

Beth ddylai mudiadau a chanddynt ddiddordeb ei wneud nesaf?

Bydd WCVA yn rhoi gwahoddiad i fudiadau ar ei restr o gyflenwyr cymeradwy i dendro am gontractau priodol. Er mwyn ymuno â'r rhestr o gyflenwyr cymeradwy, bydd angen i fudiadau lenwi a chyflwyno holiadur cyn-gymhwyso (PQQ).

I ofyn am holiadur cyn-gymhwyso, ffoniwch Lein Gymorth WCVA ar 0800 2888 329, neu anfonwch e-bost at gateway@wcva.org.uk

Dylai mudiadau sydd am drafod y broses dendro am y Porth cyn cyflwyno holiadur cyn-gymhwyso gysylltu â Lein Gymorth WCVA i ddechrau.

Lle caiff y cyfleoedd tendro eu cyhoeddi?

Bydd mudiadau sydd ar restr o gyflenwyr cymeradwy WCVA yn cael gwahoddiad uniongyrchol i dendro am gontractau priodol.

Bydd gwahoddiadau i dendro hefyd yn ymddangos ar www.sell2wales.co.uk a www.wefo.wales.gov.uk

Pa ardaloedd sy'n ardaloedd Cydgyfeirio yng Nghymru?

Ynys Môn, Conwy, sir Ddinbych, Gwynedd, Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Merthyr Tudful, Castell-nedd Port Talbot, sir Benfro, Rhondda Cynon Taf, Abertawe a Thor-faen.

Prif Swyddfa WCVA: Tŷ Baltig, Sgwar Mount Stuart, Bae Caerdydd CF10 5FH
Elusen Gofrestredig 218093 • Rhagfyr 2008

Mae'r Porth Ymgysylltu yn gynllun a ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a Chronfeydd Strwythurol Ewrop (Cronfa Gymdeithasol Ewrop), a chaiff ei reoli gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), y corff ymbarél ar ran y trydydd sector yng Nghymru.

Caiff y Porth ei ddarparu gan WCVA mewn partneriaeth â chynghorau gwirfoddol sirol a chanolfannau gwirfoddoli.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

The **Engagement Gateway**

The Gateway aims to reduce economic inactivity in Wales by investing in organisations that work with people outside of mainstream employment and furthest from the labour market

About the Gateway

The Gateway is a scheme under the European Union's Convergence programme, which is the successor to Objective 1.

It aims to reduce economic inactivity in Wales and improve the employability of disadvantaged people furthest from the labour market.

What kind of people are considered 'furthest from the labour market'?

The Gateway will invest in organisations that target people who may be out of touch with mainstream services, or at high risk of long term benefit dependency. These groups will include people facing specific disadvantage, such as:

- Women who want to return to work
- Black, Asian and minority ethnic people
- People with a work limiting health condition or disability
- Mental health service users
- People over 50 years of age

Other target groups include:

- People in receipt of incapacity benefit
- Lone parents with children of all ages
- Young people not in employment, education or training
- Economically inactive people throughout Wales

Is it a grant fund?

No. The Gateway is a scheme that will offer contracts for up to two years.

Contracts will fall into two different categories that require organisations to deliver positive outcomes to specific target groups and/or specific geographical areas.

Any organisation will be able to bid for contracts through a tendering process.

What type of outcomes are required to win a contract?

The aim of the Gateway is to help people make progress towards employment.

The Gateway will invest in organisations that provide activities to build the skills, confidence and knowledge of target groups; and which link progress to a 'next step' such as referrals to other projects, volunteering, training, supported employment or full employment.

While the outcomes of the contracts will be defined by WCVA, organisations that are tendering can design the activities that best suit their client group.

Which organisations can tender for the Gateway contracts?

Any organisation can tender for the Gateway contracts.

No organisation will be excluded from gaining contracts based on their geographic location. However, activities must be delivered to participants within the Convergence areas of Wales, and WCVA is seeking to maximise Welsh input within the scheme.

How much money can the Gateway invest in organisations?

Level 1 will offer contracts of up to £25,000 over a maximum two year period. Match funding, while not discouraged, is not a requirement at this level.

Level 2 will offer contracts of £25,000 - £75,000 over a maximum two year period. An element of match funding is required at this level.

Level 3 will offer contracts of £75,000 - £150,000. An element of match funding is required at this level.

Match funding may include financial contribution, in-kind donations or volunteer time.

Is there any support available in preparing a tender?

Advice is available locally through agencies such as the Contract Shop, county voluntary councils or your local authority.

WCVA will also offer accessible training in preparing tenders, briefing sessions and 'meet the buyer' events.

What should interested organisations do next?

WCVA will invite organisations on its approved supplier list to tender for appropriate contracts. To join the approved supplier list, organisations need to complete and submit a pre-qualification questionnaire (PQQ).

To request a PQQ, contact the WCVA Helpdesk on 0800 2888 329 or email gateway@wcva.org.uk

Organisations that would like to discuss the process of tendering to the Gateway before submitting a PQQ should contact the WCVA Helpdesk in the first instance.

Where are the tender opportunities publicised?

Organisations on WCVA's approved supplier list will be directly invited to tender for appropriate contracts.

Invitations to tender will also appear on www.sell2wales.co.uk and www.wefo.wales.gov.uk

What are the Convergence areas of Wales?

Anglesey, Conwy, Denbighshire, Gwynedd, Blaenau Gwent, Bridgend, Caerphilly, Carmarthenshire, Ceredigion, Merthyr Tydfil, Neath Port Talbot, Pembrokeshire, Rhondda Cynon Taf, Swansea and Torfaen.

WCVA Head Office
Baltic House, Mount Stuart Square,
Cardiff Bay CF10 5FH

Registered Charity 218093
December 2008

The Engagement Gateway is a scheme funded by the Wales Assembly Government and European Structural Funds (European Social Fund), and managed by Wales Council for Voluntary Action (WCVA), the umbrella body for the third sector in Wales.

The Gateway will be delivered by WCVA in partnership with county voluntary councils and volunteer centres.

ESF
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government
Ewrop & Chymru: Buddsoddi yn eich Dyfodol
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
Europe & Wales: Investing in your Future
European Social Fund

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
wcva
Wales Council for Voluntary Action

Y Porth Ymgysylltu

Nod y Porth yw lleihau anweithgarwch economaidd yng Nghymru drwy fuddsoddi mewn mudiadau sy'n gweithio gyda'r bobl hynny nad ydynt mewn cyflogaeth prif ffrwd a'r rheini sydd bellaf oddi wrth y farchnad lafur